Cyf: WA029/ CK 19 Awst 2008

Cyfarfod Agored Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

Estynnir gwahoddiad i'r cyhoedd fynychu, rhannu sylwadau a holi cwestiynau yn un o gyfarfodydd agored rheolaidd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Mercher 10 Medi yng Nghaerdydd.

Yn ystod y cyfarfod busnes, rhoddir diweddariad ar sefyllfa bresennol y DU o safbwynt BSE (Enseffalopathïau Sbyngffurf Buchol) a TSE (Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy), gan gynnwys cynigion ar lefel yr UE i godi'r trothwy oedran ar gyfer cynnal profion BSE o 30 mis, cyn i Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ystyried y mater yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Gwahoddir pawb â diddordeb yn y maes hwn neu yng ngwaith cyffredinol Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru i fynychu'r cyfarfod hwn, i rannu sylwadau ar faterion sydd o bwys iddynt, ac i gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb agored.

Cynhelir y cyfarfod yn swyddfa ASB Cymru, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW rhwng 1300 - 1630.

Os hoffech fynychu'r cyfarfod hwn, cysylltwch â Helen George ar 029 2067 8999 neu anfonwch e-bost at helen.george@foodstandards.gsi.gov.uk

Mae copi o'r agenda a gwybodaeth am sut i gofrestru neu gyflwyno cwestiwn i'r pwyllgor ar gael ar wefan yr Asiantaeth:

www.food.gov.uk/wales

Cyswllt newyddion: 029 2067 8916